

ATHLETAU CYMRU



WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU



PECYN GWYBODAETH RECRIWTIO

**SWYDDOG
GWEITHREDOL
MARCHNATA A
PHARTNERIAETHAU**

TABL CYNNWYS



01

Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

02

Ein Gwerthoedd

03

Proffil Swydd

04

Cyfrifoldebau Allweddol

05

Manyleb Person

06

Pecyn Buddion

07

Ymrwymiad ED&I

EIN GWELEDIGAETH

Athletau i bawb, ym mhobman

EIN CENHADAETH



*Bod y gamp rhif 1 ar gyfer cyfranogiad,
perfformiad a chyfleoedd cynhwysol ledled
Cymru*

PILARAU STRATEGOL

Athletau sy'n Tyfu

**Cymru o'r Safon
Fyd-eang**

**Seilweithiau
Chwaraeon
Ffyniannus**

Cymru Egnïol ac Iach

**Sefydliad
Perfformiad Uchel**

**Chwaraeon Diogel a
Chynhwysol i Bawb**

EIN GWERTHOEDD



PROFFIL SWYDD

Teitl swydd

Swyddog Gweithredol Marchnata a Phartneriaethau

Cyflog

£26,000 i 28,000 y flwyddyn, llawn amser

Yn atebol i

Pennaeth Cyllid a Phobl

Lleoliad:

Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd,
Lecwydd,
Caerdydd (CF11 8AZ)
gyda hyblygrwydd i weithio gartref

Patrwm gweithio:

Llawn Amser (37.5 awr dros 7 diwrnod)
Mae patrymau gweithio hyblyg, gan gynnwys gweithio gartref ar
gael, a bydd y rôl yn cynnwys rhywfaint o waith mewn
digwyddiadau gyda'r nos / dros y penwythnos o fewn yr wythnos 37
awr

Phwrpas y Rôl

Bydd y swyddog gweithredol marchnata a phartneriaethau yn gyfrifol am gynyddu'r sylw a gaiff brand Athletau Cymru, yn ogystal â chefnogi ymwybyddiaeth ehangach o'r gamp ledled Cymru.

Ar y cyd â'r Prif Swyddog Gweithredol, byddwch hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gweithrediad partneriaethau masnachol, gan sicrhau ein bod yn cynyddu'r sylw ia roddir i'n partneriaid ac yn darparu'r gwasanaeth gorau i'n haelodau.

Bod yn arweinydd strategol ar gyfer datblygu cyfathrebiadau mewnol ac allanol effeithiol ar gyfer Athletau Cymru ac arwain ar y gwaith o gynyddu'r incwm a gynhyrchir gennym ni ein hunan.

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Marchnata a Chyfathrebu

- Datblygu a chyflwyno cynllun marchnata blynyddol sy'n cyd-fynd â gofynion pob adran o fewn Athletau Cymru
- Chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu ymgysylltiad â gwefannau a chylchlythyrau e-bost Athletau Cymru.
- Ysgrifennu, golygu a phrawffdarllen copi marchnata ar gyfer deunyddiau digidol a deunyddiau wedi eu hargraffu.
- Helpu i ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu rhwng Athletau Cymru a'i aelodau/clybiau.
- Ymgysylltu â darparwyr cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu cysylltiadau cryf a sicrhau sylw uchel ei broffil.
- Rheoli cysylltiadau â'r cyfryngau i sicrhau'r lefel uchaf o sylw i'r holl weithgareddau cysylltiedig ag athletau sy'n cyd-fynd â pherfformiad, cyfranogiad, iechyd a lles yn ogystal ag amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Ysgrifennu a dosbarthu pob datganiad corfforaethol i'r wasg
- Cefnogi prosiectau ymgysylltu ac ymgynghori Athletau Cymru gyda'r gamp
- Goruchwyllo cynhyrchiad yr holl ddogfennau corfforaethol gan gynnwys dogfen flynyddol yn adolygu'r flwyddyn.
- Arwain ar bob ymgyrch gorfforaethol gan sicrhau ein bod yn cyflawni'r cyrhaeddiad a'r amcanion ymgyrchu uchaf posib bob amser.

Brandio a Digwyddiadau

- Arwain ar wedd a naws brand Athletau Cymru trwy'r amrywiol lwyfannau a digwyddiadau, gan sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu a diwallu anghenion y gynulleidfa darged.
- Rheoli'r gwaith o sefydlu'r brandio ar gyfer digwyddiadau allweddol Athletau Cymru, gan sicrhau bod hawliau partneriaid masnachol yn cael eu bodloni i'r eithaf bob amser.
- Ar y cyd ag arweinwyr Adrannol, cefnogi cyflwyniad cynadleddau a digwyddiadau lansio.

Masnachol

- Ar y cyd â'r Prif Swyddog Gweithredol (ac asiantaeth fasnachol allanol o bosib), dod o hyd i a chyflwyno noddwyr/partneriaid newydd – gan sicrhau bod unrhyw raglen actifadu yn cael ei chytuno a'i chyflawni. Cynhyrchu adroddiad partner blynyddol hefyd yn amlygu cyrhaeddiad ac effaith.
- Archwilio buddion newydd i aelodau yn rhagweithiol er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i'r gymuned athletau a'r gymuned redeg ledled Cymru.
- Gweithio ar draws adrannau i sicrhau bod yr holl raglenni cynhyrchu incwm yn cael eu defnyddio i'r eithaf
- Mewn cydweithrediad â'r Swyddog Gweithredol Datblygu Busnes a'r Prif Swyddog Gweithredol, creu strategaeth fasnachol sy'n adnabod cyfleoedd ar gyfer cynyddu yr incwm a gynhyrchir gennym ein hunain.
- Rheoli Perthynas - Bod yn brif bwynt cyswllt i'r holl brif bartneriaid masnachol, gan sicrhau perthynas gadarnhaol a blaengar bob amser.
- Archwilio ffyrdd creadigol o gydweithio â phartneriaid i gynyddu i'r eithaf gyrhaeddiad ac ymwybyddiaeth o'r gamp ledled Cymru.
- Byw yn unol â'n gwerthoedd bob amser!!

MANYLEB PERSON

	Hanfodol	Manteisiol
Gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol	✓	
Gwybodaeth sylfaenol am gyfreithiau hawlfraint ac egwyddorion moesegol sy'n ymwneud â chyhoeddi	✓	
Profiad o systemau gwefannau a chreu gwefannau	✓	
Profiad o ysgrifennu adroddiadau i'r cyfryngau	✓	
Profiad o ddefnyddio meddalwedd cyhoeddi	✓	
Profiad o gynhyrchu cyfryngau (e.e. fideo, ffotograffiaeth)	✓	
Gwybodaeth am bob un o'r disgyblaethau athletau		✓
Profiad o gyflwyno gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd / partneriaid		✓
Rhywfaint o brofiad o ddefnyddio Google Analytics neu offer gwerthuso tebyg a/neu wybodaeth am adnoddau o'r fath		✓
Cysylltiadau â phrif allfeydd y cyfryngau yng Nghymru a'r DU		✓
Siarad Cymraeg	✓	
Gallu teithio ledled Cymru (a Phrydain yn ôl yr angen)	✓	
Sgiliau TG, gan gynnwys defnyddio Microsoft Office, e-bost a'r rhyngwrwyd	✓	
Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig.	✓	
Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol	✓	
Profiad o reoli gwefan	✓	
Gallu gweithio dan bwysau ac o fewn amser penodol		✓
Sylw agos i fanylion	✓	
Gweithio'n dda mewn tîm ac yn barod i arwain	✓	
Hyblyg a pharod i addasu yn ôl y galw	✓	
Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill	✓	

PECYN BUDDION



10% Amser lles



Rhaglen Cymorth i Weithwyr




25 diwrnod â thâl yn ogystal ag
8 diwrnod â thâl ar wyliau'r
banc



Cynllun Pensiwn y Cwmni
(cyflogwr yn gwneud cyfraniad
cyfatebol o hyd at 6%)



3 diwrnod gwyliau blynyddol
wedi'u rhoi yn anrhegion dros
gyfnod y Nadolig



Parcio am ddim ar y safle yn
ein swyddfeydd (NIAC, CISC)




Aelodaeth Athletau Cymru



Ariennir cyfleoedd hyfforddi a
datblygu gyrfa

YMRWYMIAD ED&I



Rydym yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys a chymwys waeth beth fo'u rhyw, hil, anabled, oedran, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cred neu ddiffyg cred.

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar yr arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch â: Eleanor Cartlidge

eleanor.cartlidge@welshathletics.org

Sylwer, Rydym yn ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydym yn ymrwmo i gynhwysiant ac yn croesawu ysbryd pob deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydaddoldeb. Lle bo modd, byddwn bob amser yn barod i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau hygyrchedd i unrhyw un sydd ei angen.

SUT I WNEUD CAIS

I wneud cais am y rôl hon, ewch i'n tudalen gyrfaoedd ar-lein yn <https://www.welshathletics.org/en/page/careers> lle byddwch yn dod o hyd i ddolen i gyflwyno'ch CV a llythyr eglurhaol.

Am ragor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â hr@welshathletics.org

